**Natalie Black CBE**
Cyfarwyddwr Grŵp
Seilwaith a Chysylltedd
Llinell uniongyrchol: 020 7783 4490
natalie.black@ofcom.org.uk

9 Hydref 2025

**Llythyr agored at y diwydiant**

**Pryderon a godwyd gydag Ofcom ynghylch cynnig arbennig diweddar Openreach o ran uwchraddio rhagweithiol**

Mae Openreach wedi cyflwyno nifer o gynigion cynnig FTTP (ffibr i'r safle) i'r farchnad eleni. Mae Ofcom wedi cadw llygad manwl ar y datblygiadau hyn fel rhan o'i waith monitro'r farchnad parhaus, er mwyn sicrhau bod Openreach yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio a'r disgwyliadau a osodwyd gennym arno yn yr Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Cyfanwerthol (2021-2026), ac i lywio'r Adolygiad Mynediad i Delathrebu a fydd yn gosod y fframwaith rheoleiddio sy'n berthnasol o fis Ebrill 2026 i fis Mawrth 2031.

Mae rhai darparwyr rhwydwaith cystadleuol wedi codi pryderon gydag Ofcom ynghylch cynnig arbennig uwchraddio rhagweithiol FTTP diweddar Openreach.[1] Yn benodol, maent yn pryderu:

- bod lefel y prisio yn y cynnig yn is na chostau gweithredwr rhesymol effeithlon, ac felly gallai gael effaith andwyol ar ddatblygiad cystadleuaeth rhwydwaith gynaliadwy; a
- bod hyd cyfyngedig y cynnig, ynghyd â'r lefelau prisiau, yn rhoi cymhelliant i fudo torfol cyflymach gan ISPs o gopr i FTTP, gan gau'r farchnad i weithredwyr rhwydwaith cystadleuol mewn amgylchiadau lle nad yw cytundebau cyfanwerthu ar waith eto, neu mewn ardaloedd lle nad yw rhwydweithiau amgen wedi ymsefydlu eto.

Mae darparwyr sy'n cystadlu gydag Openreach wedi gofyn i Ofcom ymchwilio i effeithiau'r cynnig hwn ar gystadleuaeth, ac atal y cynnig rhag dod i rym yn y cyfamser.[2]

Mae'r llythyr hwn yn nodi ymateb Ofcom i'r pryderon hyn. At ddibenion tryloywder, byddwn yn cyhoeddi'r llythyr hwn ar wefan Ofcom.

**Ein dull o ymdrin â chynigion Openreach**

[1] Cynnig arbennig ar gyfer Uwchraddio Rhagweithiol GEA-FTTP ar 1000/115Mb, 550/75Mb a 330/50Mb am bris rhent o 80/20Mb. Mae'r rhestr brisiau a'r telerau ymahttps://www.openreach.co.uk/orpg/home/products/pricing/loadProductPriceDetails.do?data=4mTxKO7hBafCOH3sMf5EFfxLsllfu64pGM9WuMhhJ3Zr1YEnhmd6IqioveWeQq3CW2uRbxM%2BJK7pEbggm6mJLw%3D%3D. Mae'r briff i gwsmeriaid yma.

[2] Mae rhai rhwydweithiau eraill wedi codi pryderon ynghylch Cynnig Arbennig Openreach ar gysylltiadau newydd i rwydwaith FTTP yng nghyd-destun ein dull arfaethedig o ostyngiadau Newydd i Rwydwaith yn yr Adolygiad Mynediad i Delathrebu. Byddwn yn ystyried ac yn mynd i'r afael â'r pwyntiau hynny yn yr Adolygiad Mynediad Telathrebu.

Ein strategaeth ers 2016 yw hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau FTTP newydd trwy gystadleuaeth rhwydwaith lle bo hyn yn hyfyw. O ganlyniad, mae gwasanaethau band eang uwchgyflym cystadleuol ar gael yn helaeth. Dylai'r gystadleuaeth rhwydwaith yr ydym yn ceisio ei hyrwyddo fod o fudd i ddefnyddwyr yn y tymor hir.

Mae denu cwsmeriaid o rwydweithiau etifeddol i FTTP yn allweddol i lwyddiant pob darparwr rhwydwaith, sydd wedi buddsoddi'n sylweddol - ac sy'n parhau i fuddsoddi - mewn adeiladu eu rhwydweithiau FTTP. Fodd bynnag, rydym yn gosod gofynion a chyfyngiadau penodol ar Openreach i fynd i'r afael â'n pryder bod ganddo'r gallu a'r cymhelliant i ddefnyddio ei safle o bŵer sylweddol yn y farchnad i fygu buddsoddiad a datblygu cystadleuaeth rhwydwaith gynaliadwy.[3] Yn amodol ar y gofynion a'r cyfyngiadau hyn, caniateir i Openreach gystadlu a gwneud ei wasanaethau FTTP yn ddeniadol i'w gwsmeriaid.

**Ein barn ar y cynnig hwn**

Rydym yn cydnabod y gallai'r prisiau is sydd ar gael o dan y cynnig hwn gynyddu'r pwysau masnachol ar rwydweithiau amgen, a hynny am ei fod yn hogi'r gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau. Fodd bynnag, nid yw hyn ar ei ben ei hun yn rheswm dros ymyrryd, ac nid yw'n golygu'n awtomatig bod y prisiau hynny yn codi pryderon o ran cystadleuaeth. Felly, rydym wedi ystyried yn ofalus a yw'r cynnig yn cyflwyno *pryderon cystadleuaeth prima facie* a fyddai'n gwneud i ni benderfynu ymchwilio iddo yn fanylach cyn iddo fynd i'r farchnad. Wrth wneud hyn, rydym wedi ystyried y pryderon cystadleuaeth posibl a nodir yn Natganiad WFTMR 2021 ac Ymgynghoriad TAR Mawrth 2025.

Mae'r cynnig hwn wedi'i dargedu'n benodol at fudo rhagweithiol – sef achosion o fudo a gychwynnir gan ddarparwr gwasanaeth rhyngrwyd (ISP) yn hytrach na'r cwsmer - sydd ar hyn o bryd yn cyfrif am gyfran fach o'r holl gysylltiadau newydd â rhwydwaith FTTP Openreach. O dan y cynnig, bydd darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd sy'n mudo cwsmeriaid o wasanaethau copr etifeddol i'r haenau 1000/115Mb, 550/75Mb a 330/50Mb yn y ffenestr gynnig yn talu pris rhent o 80/20Mb am 24 mis. Mae'r cynnig yn rhedeg o 10 Hydref 2025 tan 9 Ebrill 2026.

O ran pryderon ynghylch lefel y prisiau, rydym wedi ystyried effaith bosibl y cynnig ar bris FTTP cyfartalog Openreach a sut mae hyn yn cymharu â'n hamcangyfrifon o gostau gweithredwr rhesymol effeithlon (yr "ystod REO"). Mae hyn yn gyson â'r dull a gymhwyswyd gennym yn Equinox 2 a'n dull arfaethedig yn Ymgynghoriad Mawrth 2025. Mae hyn yn profi p'un a allai rhwydwaith amgen sy'n gosod yr un tâl rhent FTTP cyfartalog wneud hynny'n broffidiol. Er nad yw'n brawf cynhwysol, mae'n cynnig canllaw i weld a fyddai rhwydweithiau amgen yn gallu cystadlu'n ymarferol.

Mae pris FTTP cyfartalog cyfredol Openreach yn uwch na phen uchaf ein hamcangyfrifon ystod REO.[4] Yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd gennym, rydym yn disgwyl i hyn barhau i fod yn wir o dan y cynnig ar draws ei sylfaen FTTP gyfan ac ar gyfer cysylltiadau newydd, hyd yn oed gan ganiatáu effaith bosibl ar gyfeintiau. Mae hyn yn cynnwys y ffaith bod mudo rhagweithiol yn cynrychioli cyfran fach o'r holl gysylltiadau newydd â rhwydwaith FTTP Openreach, a bod y cynnig yn gyfyngedig o ran amser, sy'n golygu mai segment cul o sylfaen cwsmeriaid Openreach all fanteisio ar y cynnig.

[3] Mae'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn wedi'u nodi yn Natganiad WFTMR 2021, Cyfrol 3, Adran 7. Ym mis Mawrth 2025, gwnaethom ymgynghori ar ein dull arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2026-2031.

[4] Mae hyn yn wir ar gyfer yr ystod REO a nodir yn WFTMR 2021 (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant), yn ogystal â'r ystod wedi'i diweddaru y gwnaethom ymgynghori arni yn ein hymgynghoriad TAR ym mis Mawrth 2025. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a byddwn yn nodi ein barn derfynol o'r ystod REO ar gyfer y cyfnod 2026-31 yn y datganiad Adolygiad Mynediad Telathrebu.

Er bod y lefelau prisiau penodol swydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn yn dod o fewn yr ystod REO,[5] nid ydym o'r farn bod edrych ar brisiau unigol yn ddefnyddiol fel dangosydd *prima facie* o bryderon cystadleuaeth yn yr achos hwn. Mae hyn oherwydd bod rhwydweithiau FTTP yn cystadlu ar draws ystod lawer ehangach o wasanaethau a chwsmeriaid nag a gwmpesir gan y cynnig penodol hwn, ac mae prisio anghyson yn gyffredin yn y farchnad. Yn wir, gall prisio gwahaniaethol fod yn ffordd gyfreithlon i bob gweithredwr rhwydwaith ffibr brofi'r farchnad a hybu'r defnydd.

Rydym yn ymwybodol o effaith gronnus bosibl cynigion lluosog ar lefelau prisio cyffredinol. O ystyried cwmpas y cynigion a gyhoeddwyd yn ddiweddar – er enghraifft, cynnwys newydd i'r rhwydwaith yn ogystal â mudo rhagweithiol – nid yw hyn yn newid ein barn ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl i'r effaith gronnus ar bris FTTP cyfartalog Openreach fod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn wyliadwrus o'r risg hon yn y dyfodol, a byddwn yn parhau i asesu cynigion yn y dyfodol, o safbwynt unigol a chronnus.

Rydym hefyd wedi ystyried a allai'r cynnig hwn ysgogi mudo cyflymach. Yn ein hymgynghoriad ym mis Mawrth, gwnaethom nodi pryder newydd: y gallai Openreach ddefnyddio telerau masnachol i annog Darparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd (ISPs) i fudo eu sylfaen cwsmeriaid presennol sydd ar wasanaethau band eang etifeddol yn gyflymach i rwydwaith FTTP Openreach, cyn i ISPs allu mudo eu sylfaen cwmseriaid hwythau i rwydwaith amgen yn lle hynny. Rydym yn dal i ystyried ymatebion rhanddeiliaid ar gwmpas y pryder hwn. Fodd bynnag, rydym yn mai cynigion a oedd yn amodol ar ISPs yn cyrraedd targedau penodol sy'n gysylltiedig â mudo eu sylfaen cwsmeriaid etifeddol yw'r rhai sy'n peri'r pryder mwyaf, gan y gallant greu cymhellion cryf ar gyfer mudo cyflym. Nid yw'r cynnig hwn yn cynnwys amodau o'r fath.

Am y rhesymau a nodir uchod, nid oes gennym ar hyn o bryd bryderon *prima facie* a fyddai'n gwneud i ni benderfynu ymchwilio i'r cynnig yn fanylach.

**Camau nesaf**

O ystyried natur ddeinamig y farchnad heddiw, mae'n bwysig i ni ddeall effaith y cynnig hwn ar lefelau prisiau FTTP cyfartalog Openreach ac ymddygiad Darparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd dros y misoedd nesaf. Byddwn felly yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth ffurfiol i fonitro'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol yng ngoleuni'r cynnig hwn. Mae hyn yn cynnwys ystyried effaith y cynnig yn unigol ac yn gronnus gyda chynigion Openreach eraill.

Byddwn yn parhau i fonitro unrhyw gynigion newydd (gan gynnwys estyniadau i gynigion presennol) y mae Openreach yn dewis eu cyflwyno ar wahân er mwyn nodi unrhyw bryderon cystadleuaeth posibl. Mae hyn yn cynnwys pryderon posibl ynghylch lefelau prisiau, yn ogystal â'r damcaniaethau eraill o niwed a drafodwyd yn Natganiad WFTMR 21 ac Ymgynghoriad TAR Mawrth 2025. Byddwn hefyd yn monitro a yw newidiadau prisiau aml gan Openreach yn creu ansicrwydd yn y farchnad.

Ar sail ein gwaith monitro, byddwn yn penderfynu a allai unrhyw ymddygiad neu gamau gweithredu gan Openreach newid ein safbwynt presennol, gan gynnwys o dan gyfraith cystadleuaeth, a byddwn yn barod i ymateb yn gyflym os byddwn o'r farn bod angen gwneud hynny.

Byddwn hefyd yn ystyried y dystiolaeth a gasglwn fel rhan o'n gwaith monitro wrth benderfynu ar ein dull o ymdrin â phrisio Openreach a chynigion ar gyfer y cyfnod 2026-2031. Mae ein

[5] O dan y cynnig, bydd prisiau cynhyrchion lled band uwch yn cael eu gosod ar yr un lefel â'r cynnyrch 80/20, sydd ei hun o fewn yr ystod REO. Mae'r prisiau gostyngol effeithiol hyd yn oed yn is ar gyfer ISPs sy'n gymwys ar gyfer y mecanwaith cyfranddaliadau ARPU o dan Equinox 2, lle mae ISP yn derbyn 50% o'r swm y mae ei ARPU ar gyfer ei archebion FTTP Openreach yn fwy na throthwy penodol. Mae hyn oherwydd y byddai'r gyfran ARPU yn cael ei chyfrifo ar y lled band a archebir am brisiau gostyngol Equinox 2 nid ar sail y pris 80/20 a godir o dan delerau'r cynnig.

dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn parhau a byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ym mis Mawrth 2026.

Yn gywir

Natalie Black

**Cyfarwyddwr Grŵp, Seilwaith a Chysylltedd**